Hawdd i'w Ddeall

# Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol

## Gwybodaeth am ymgeisio am Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**'.

**Gorffennaf 2023**


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

ELAN LINKS
Pobl · Natur · Dŵr
People · Nature · Water

PEAK CYMRU

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifenu glas trwm** yn gallu bod yn anodd i'w deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 28**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242 733

Mae **Hawdd ei Deall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........ 2

Cyflwyniad ........ 4

Am Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol ........ 6

Beth mae'r Gymrodoriaeth yn ei gynnig ........ 11

Sut i wneud cais ........ 18

Sut rydyn ni yn gwneud ein penderfyniad ........ 23

Beth fydd yn digwydd nesaf ........ 26

Geiriau Anodd ........ 28

# Cyflwyniad

Ni ydy **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Mae gennym ni raglen o'r enw **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**.



Mae **cymrodoriaeth** yn meddwl grŵp o bobl sy'n rhannu diddordeb.

Rydyn ni yn gweithio gyda **Chyfoeth Naturiol Cymru** i ddarparu **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**.



Rydyn ni eisiau i bawb yn y celfyddydau allu gwneud cais am **Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**.

Yn enwedig pobl nad ydyn nhw efallai'n cael yr un cyfleoedd i weithio yn y celfyddydau. Fel:



- pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig
- pobl sy'n fyddar neu'n anabl.



Hawdd i'w Ddeall

Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol

Gwybodaeth am ymgeisio am Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**'.

**Gorffennaf 2023**

Fe fydd y ddogfen yma yn eich helpu i wneud cais am **Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**.

# Am Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol



Mae rhaglen **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol** yn rhan o'r Bartneriaeth Natur Greadigol.



Mae'r bartneriaeth rhwng **Cyngor Celfyddydau Cymru** a **Chyfoeth Naturiol Cymru**, gan weithio gyda'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Cwm Elan**.



Fe fyddwn ni yn gwahodd 8 artist gyda sgiliau gwahanol i gymryd rhan yn y **Gymrodoriaeth**.



Fe fydd yn rhaid iddyn nhw weithio ar brosiect ymchwil am natur.



Fe fydd yn rhaid iddyn nhw edrych ar bethau fel **newid hinsawdd** a sut rydyn ni'n gallu diogelu'r **amgylchedd**.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, stormydd yn waeth nag oedden nhw'n arfer bod. Neu cael llai o law mewn rhai lleoedd.



Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni yn byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.




**Thema'r Gymrodoriaeth ydy:**

- Eich cysylltiad â natur.
- Sut mae pobl a chymunedau wedi cael eu cysylltu gyda natur.
- Materion sy'n helpu i gael cymdeithas **gynaliadwy** a theg.




Mae **cynaliadwy** yn meddwl y bydd pethau'n para am amser hir. A gwneud pethau mewn ffyrdd sy'n achosi ychydig neu ddim difrod i'r amgylchedd.



Fe fydd yr artistiaid yn treulio 16 mis yn edrych ar sut mae'r themâu yma yn effeithio ar fywydau pobl sy'n byw yng Nghymru.

**Mae eich ymchwil yn gallu bod am bethau fel:**



- **Newid yn yr hinsawdd**.



- **Anghyfiawnder cymdeithasol**.

> **Anghyfiawnder cymdeithasol** ydy pan fydd unigolyn neu grŵp o bobl mewn cymdeithas yn cael eu trin yn annheg.



- Sut mae llefydd wedi cael eu heffeithio ar ôl cael eu rheoli gan rhyw wlad arall.




Fe fydd **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol** yn rhoi'r arian ar gyfer y prosiect.



Rydych chi'n gallu gwneud yr ymchwil mewn unrhyw ffordd. Mae'n gallu bod yn beintio, darlunio, ffotograffiaeth, ffilm, cerflunio, ysgrifennu – neu unrhyw beth arall.



Fe ddylai eich ymchwil herio sut rydyn ni yn meddwl am bethau.

**Fel sefydliad, rydyn ni yn gofyn y cwestiynau yma i ni'n hunain:**



- Sut mae'r celfyddydau yn gallu ein helpu i gael perthynas agos â natur?



- Sut mae'r celfyddydau yn gallu **ysbrydoli** pobl i wneud y newidiadau sydd eu hangen arnom ni fel cymdeithas?

Mae **ysbrydoli** yn meddwl llenwi pobl â'r awydd neu'r dymuniad i wneud neu deimlo rhywbeth.



- Pwy sy'n gyfrifol am natur? Sut rydyn ni'n gallu cynllunio ar gyfer dyfodol ein planed?




- Sut mae ein perthynas â natur yn effeithio ar ein cymdeithas?



- Sut mae ein cymdeithas yn effeithio ar ein perthynas â natur?

- Pa straeon sy'n dangos ein cysylltiad â natur?



- Sut rydyn ni'n gallu defnyddio'r celfyddydau i edrych ar y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg, **diwylliant**, hanes a thirweddau Cymru?

> **Diwylliant** ydy'r syniadau, credoau, ymddygiadau a thraddodiadau rydyn ni yn eu rhannu.



- Beth ydyn ni yn gallu ei ddysgu am fyd natur yng Nghymru a lleoedd eraill ledled y byd?



Fe fyddwn ni yn cael sgyrsiau a thrafodaethau gyda'r rhai sydd yn cymryd rhan am y cwestiynau yma. Fe fydd hyn yn ein helpu ni i wneud y newidiadau sydd angen i ni eu gwneud fel sefydliad.

# Beth mae'r Gymrodoriaeth yn ei gynnig




Os ydych chi'n cael eich gwahodd i gymryd rhan yn y Gymrodoriaeth, fe fyddwch chi yn cael £25 mil o bunnoedd am 16 mis neu waith. Rhwng **mis Rhagfyr 2023** a **mis Mawrth 2025**.



Fe fydd y £25 mil o bunnoedd yn cael ei rannu.



Fe fyddwch chi yn cael £15 mil o bunnoedd am eich amser.



A £10 mil o bunnoedd i'w wario ar bethau fel deunyddiau, gwneud eich ymchwil a hyfforddiant.



Rydych chi'n gallu gweithio o unrhyw le yng Nghymru.



Os ydych chi'n bwriadu gweithio gyda phobl eraill, fe ddylech chi eu talu o arian y **Gymrodoriaeth**.

## Am waith y Gymrodoriaeth



Fe fydd y **Gymrodoriaeth** yn wahanol i bob artist. Yn dibynnu ar eu sgiliau a'u profiadau.




Fe fydd yn rhaid i artistiaid dreulio tua 60 diwrnod yn gweithio ar eu hymchwil.

**Rydyn ni eisiau i aelodau'r Gymrodoriaeth:**



- Cymryd rhan mewn sesiynau ar-lein i rannu syniadau.




- Ysgrifennu adroddiad terfynol am beth rydych chi wedi ei gyflawni a beth rydych chi wedi ei ddysgu.



- Cymryd rhan yn y **rhaglen ddatblygu**.

## Am y Rhaglen Ddatblygu



Mae gan y **Gymrodoriaeth** raglen **ddatblygu** y mae'n rhaid i artistiaid gymryd rhan ynddi.

Mae wedi cael ei datblygu gan **Peak Cymru**.




Fe fydd **Peak Cymru** yn gweithio gyda rheolwr y celfyddydau a'r cynhyrchydd creadigol Elen Roberts i redeg y **rhaglen ddatblygu**.

**Fe fydd y rhaglen ddatblygu yn cynnig i'r 8 artists:**



- Cefnogaeth a sgyrsiau bob 2 fis.

- 3 cyfarfod grŵp am syniadau, ymchwil a gwaith sydd ar y gweill.




- Digwyddiadau preswyl 3 diwrnod gydag ymarferwyr gwadd. Fe fydd tri digwyddiad preswyl. Fe fydd yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal yn bersonol.

  Fe fydd y sesiynau preswyl yn helpu artistiaid i ddysgu mwy am waith partneriaid, ymarferwyr ac artistiaid eraill.

  Fe fydd yn gyfle i edrych ar natur a sut rydyn ni yn cysylltu gyda natur.



- 5 sesiwn galw'i mewn. Fe fydd hyn ar-lein.

- 3 sesiwn dysgu. Fe fydd hyn ar-lein.



- Cyfle i ddysgu ac ymateb i leoedd sy'n cael eu rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

- Sesiwn dysgu am y Ddeddf Llesiant Cendlaethau'r Dyfodol.

**Nid yw dyddiadau'r digwyddiadau uchod wedi'u cadarnhau eto.**

**Dyma rai dyddiadau sydd wedi cael eu cadarnhau:**

Rhagfyr
2023

**8 Rhagfyr 2023**: Cyfarfod galw'i mewn (ar-lein). Fe fydd hyn yn digwydd 1 i 1 gyda'r artist.

Ionawr
2024

**24 Ionawr 2024**: Cyfarfod grŵp, cyn y sesiwn breswyl gyntaf. Fe fydd hyn ar-lein.

Chwefror
2024

**Chwefror 2024**: Sesiwn breswyl gyntaf. Fe fydd hyn yn digwydd yn bersonol.

Mai
2024

**15 Mai 2024**: Cyfarfod grŵp, cyn yr ail sesiwn breswyl. Fe fydd hyn ar-lein.

Mehefin
2024

**Mehefin 2024**: Ail sesiwn breswyl. Fe fydd hyn yn digwydd yn bersonol.

Medi
2024

**19 Medi 2024**: Cyfarfod grŵp, cyn y trydydd sesiwn breswyl. Fe fydd hyn ar-lein.




**Hydref 2024**: Trydydd sesiwn breswyl. Fe fydd hyn yn digwydd yn bersonol.




**Ionawr 2025**: Cyfarfod grŵp i rannu syniadau ac adborth ar ddiwedd y Gymrodoriaeth. Fe fydd hyn ar-lein.




**Chwefror 2025**: Digwyddiad cyhoeddus, sydd ddim wedi cael ei gadarnhau eto.

## Cymhwysedd



Mae'n rhaid i chi fod yng Nghymru.




Rhaid i'ch cais gael ei wneud yn eich enw cyfreithiol eich hun.




Dim ond i gyfrif banc yn eich enw chi rydyn ni'n gallu talu arian. Rhaid i hyn fod yr un enw ag rydych chi wedi'i ddefnyddio yn eich cais. Mae mwy o wybodaeth yma.



Dydych chi ddim yn gallu gwneud cais os ydych chi yn astudio'n llawn amser.

**Os oes gennych chi anghenion mynediad**



Mae **anghenion mynediad** yn bethau fel defnyddio meddalwedd arbenigol i'ch helpu i ddarllen, defnyddio dehonglwyr BSL neu gael gweithiwr cymorth.



Os oes gennych unrhyw **anghenion mynediad**, rydych chi'n gallu cysylltu â'n **Tîm Grantiau a Gwybodaeth** i siarad am sut rydyn ni'n gallu helpu.

# Sut i wneud cais

## Dyddiadau pwysig




Gwnewch gais erbyn 5pm ar 15 Medi 2023.

## Beth sydd angen i chi ei wneud




Mae'n rhaid i chi gofrestru ar ein gwefan cyn i chi wneud cais. Yn gyntaf, mae angen i chi gofrestru i ddefnyddio ein porth ar-lein. Cofrestrwch drwy glicio yma.



Yna rydych chi'n gallu gwneud cais am **Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol** gan ddefnyddio'r porth ar-lein.



Cymerwch amser i ddarllen a deall y cwestiynau ar y ffurflen.



Os oes gennych unrhyw broblemau gyda hyn, anfonwch e-bost i ni yn: grantiau@celf.cymru



Fe fyddwn ni yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn ni yn derbyn eich cais.

## Pa ddogfennau rydych chi eu hangen

### 1. Cynnig

Yn eich cynnig, fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni am:



- Eich profiad, cefndir, gwaith celf yn y gorffennol.
- Eich thema a sut y byddwch chi yn rheoli eich gwaith.



Rydych chi'n gallu ysgrifennu eich cynnig – ni ddylai fod yn hirach na 2 ochr papur A4.



Neu rydych chi'n gallu gwneud recordiad sain neu fideo am eich cynnig. Ni ddylai hyn fod yn hwy na 4 munud o hyd.



I gael rhagor o wybodaeth am beth i'w ysgrifennu yn eich cynnig, darllenwch ein hadran **Sut y byddwn yn gwneud ein penderfyniad** ar **dudalen 23 - 25.**

## 2. Cyllideb



Dywedwch wrthyn ni faint o arian rydych chi ei angen. Rhaid i hyn gynnwys eich costau teithio i ddigwyddiadau.



Mae arian ychwanegol ar gael i bobl sydd ag **anghenion mynediad**. Mae hyn yn gallu talu am bethau fel:

- cefnogaeth gan gynorthwyydd personol
- cyfieithwyr
- meddalwedd arbennig i helpu i ddarllen gwybodaeth ar-lein
- gofal plant.

### 3. Prawf o waith




Rhaid i chi gynnwys hyd at 8 enghraifft o waith blaenorol. Mae'n gallu bod yn ddelweddau, testun neu ddolenni i fideos ar-lein.



Os ydych chi yn defnyddio fideo, gwnewch yn siŵr ei fod ar gael ar-lein rhwng **15 Medi 2023 a 24 Hydref 2023**.

### 4. CV



Ni ddylai eich CV fod yn hirach na 2 ochr papur A4. Fe ddylai eich CV gael eich enw, manylion cyswllt dau ganolwr sy'n eich adnabod ac sy'n gallu dweud wrthyn ni am eich gwaith.



Fe ddylai pob testun fod mewn maint ffont 12 pwynt. Rhaid i'r ffeil fod ar ffurf PDF neu Word. Ni ddylai'r ffeil fod yn fwy na 250 MB.




Rhaid darparu ffeiliau fideo a sain fel dolenni.
Gall hyn fod ar eich gwefan eich hun, Vimeo neu YouTube.




Anfonwch gyfrineiriau i ni os ydy eich dolenni wedi'u diogelu gan gyfrinair.

# Sut rydyn ni yn gwneud ein penderfyniad



Fe ddylech chi:

- Wedi bod yn gweithio yn y celfyddydau am o leiaf 5 mlynedd.



- Dweud wrthyn ni sut y byddwch chi yn elwa o'r gymrodoriaeth.



- Dweud wrthyn ni sut y bydd eich gwaith yn edrych ar faterion i helpu i gael cymdeithas **gynaliadwy** a theg.



- Profiad o weithio gyda chynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

**Fe fyddwn ni yn meddwl am:**



- Ansawdd eich gwaith celf yn y gorffennol.
- Sut mae eich cynnig yn gallu ein helpu i gyflawni ein nodau.



- Pa mor dda ydy eich cynllun ar gyfer rheoli eich gwaith.
- Eich syniadau yn y cynnig a sut y byddwch chi yn gweithio ar y themâu.

**Fe fyddwn ni hefyd yn meddwl am:**



- Os byddwch chi yn elwa o'r **Gymrodoriaeth**.



- Os bydd eich gwaith yn helpu'r **Gymrodoriaeth** i wneud newid cadarnhaol.



- Os ydych chi'n dod o **gefndir amrywiol**.

Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yng Nghymru:

Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau

Gyda galluoedd gwahanol

Yn credu mewn gwahanol bethau

Gyda hunaniaethau rhywiol gwahanol

Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau

Maen nhw o oedrannau gwahanol.

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Fe fyddwn ni yn edrych dros eich gwybodaeth.




Os ydych chi yn gymwys i dderbyn y **Gymrodoriaeth yma**, fe fydd panel o bobl o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac arbenigwyr eraill yn penderfynu os ydy eich cais yn llwyddiannus neu beidio.



Os ydyn ni yn cytuno y dylech chi gymryd rhan yn y Gymrodoriaeth, fe fyddwn ni yn gofyn i chi lenwi 2 ffurflen:

- **Ffurflen Derbyn y Wobr**
- A ffurflen **manylion banc**




Ar ôl i chi lofnodi eich **Ffurflen Derbyn Gwobr**, fe fyddwn ni yn edrych dros eich manylion banc.



Pan fyddwn ni wedi derbyn eich **Ffurflen Derbyn Gwobr a Manylion Banc**, fe fyddwn ni yn anfon ychydig dros hanner yr arian i chi (60%).



Fe fyddwn ni yn anfon mwy o arian i chi yn ystod y Gymrodoriaeth (30%).



Fe fyddwn ni yn anfon gweddill yr arian i chi ar ôl i'r prosiect ddod i ben.



Mae penderfyniad y panel yn derfynol. Os na fyddwch chi yn llwyddiannus, fe fyddwn ni yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych chi pam.




Fe fyddwch chi yn cael ateb erbyn **31 Hydref 2023**.

# Geiriau Anodd

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yng Nghymru:

Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau

Gyda galluoedd gwahanol

Yn credu mewn gwahanol bethau

Gyda hunaniaethau rhywiol gwahanol

Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau

Maen nhw o oedrannau gwahanol.

## Amylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni yn byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Anghyfiawnder cymdeithasol

Anghyfiawnder cymdeithasol ydy pan fydd unigolyn neu grŵp o bobl yn y gymdeithas yn cael eu trin yn annheg.

## Cynaliadwy

Mae cynaliadwy yn meddwl y bydd pethau'n para am amser hir. A gwneud pethau mewn ffyrdd sy'n achosi ychydig neu ddim difrod i'r amgylchedd.

## Diwylliant

Diwylliant ydy'r syniadau, credoau, ymddygiadau a thraddodiadau rydyn ni yn eu rhannu.

## Newid hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, stormydd yn waeth nag oedden nhw'n arfer bod. Neu cael llai o law mewn rhai lleoedd.

## Ysbrydoli

Mae ysbrydoli yn meddwl llenwi pobl â'r awydd neu'r dymuniad i wneud neu deimlo rhywbeth.